Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Sut rydyn ni'n darparu gwasanaethau awtistiaeth yng Nghymru

Mae arnon ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl

Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn o **'Gôd Ymarfer ar Ddarparu Gwasanaethau Awtistiaeth' – Dogfen Ymgynghori Llywodraeth Cymru.**

Ionawr 2019

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn. Mae'r geiriau a'r hyn maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.

Efallai na fedrwch chi ddarllen a deall y ddogfen hon heb help. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Efallai y bydd rhai geiriau yn anodd i'w deall. Mae'r rhain wedi cael eu hysgrifennu mewn **glas trwm**. Mae'n dweud beth maen nhw'n feddwl mewn bocs o dan y gair.

Os bydd y gair anodd yn cael ei ddefnyddio eto bydd mewn glas cyffredin. Gallwch edrych beth mae'n feddwl yn **Geiriau anodd** ar dudalen 34.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pan fydd y ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

Cyfeiriad: Y Gangen Polisi Awtistiaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ

Gwefan: beta.llyw.cymru/cod-ymarfer-ar-ddarparu-gwasanaethau-awtistiaeth

E-bost: YmgynghoriadCodYmarfer.Awtistiaeth@llyw.cymru

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.

Cynnwys

Tudalen

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon....2

Cyflwyniad....4

1. Asesiad a diagnosis....7

Cael asesiad a diagnosis....7

Plant a phobl ifainc....8

Dyletswyddau ar gyfer asesiad a diagnosis....10

2. Cael gofal a chefnogaeth....14

Cymhwyster....17

Dyletswyddau ar gyfer rhoi gofal a chefnogaeth i bobl....21

3. Codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant....24

Hyfforddiant i staff iechyd a gofal cymdeithasol....24

Dyletswyddau ar gyfer codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant....26

4. Cynllunio a chadw golwg ar wasanaethau....29

Cadw golwg ar wasanaethau....31

Dyletswyddau ar gyfer cynllunio a chadw golwg ar wasanaethau....32

Geiriau anodd....34

Cyflwyniad

Mae arnon ni eisiau gwneud gwasanaethau awtistiaeth yng Nghymru yn well. Felly rydyn ni'n ysgrifennu'r **Côd Ymarfer** hwn ar sut y dylai gwasanaethau awtistiaeth weithio.

Mae **Côd Ymarfer** yn gosod rheolau ac yn rhoi cyngor ynghylch y ffyrdd gorau o weithio. Mae'n dweud sut i ddilyn deddfau a chynlluniau. Byddwn yn ei alw'n y **Côd** i'w wneud yn fyrrach.

Bwriad y Côd hwn yw helpu awdurdodau lleol a byrddau iechyd i ddilyn y Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer **Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig (ASD) 2016**.

Bydd y Côd hefyd yn eu helpu i ddeall y pethau y mae gwahanol ddeddfau yn dweud y mae'n rhaid iddyn nhw wneud i helpu pobl ag awtistiaeth. Mae'r deddfau hyn yn cynnwys:

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006
- Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018
- Deddf Iechyd Meddwl 1997
- Mesur Iechyd Meddwl Cymru 2010
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Deddf Cydraddoldeb 2010.

Bydd y Côd yn dweud sut y mae'n rhaid i awdurdodau lleol a byrddau iechyd helpu pobl ag awtistiaeth yn y pedair brif ffordd hyn:

1. Asesiadau a diagnosis

Mae **asesiad** yn ffordd o weld pa ofal a chefnogaeth sydd ar berson ei angen.

Mae **diagnosis** yn ffordd o weld a yw person yn dioddef gan awtistiaeth.

2. Cael gofal a chefnogaeth

3. Codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant

4. Cynllunio a chadw golwg ar wasanaethau

Bydd y Côd hwn hefyd yn dweud pa bethau y dylai awdurdodau lleol, byrddau iechyd a darparwyr gwasanaeth eraill ei wneud er mwyn i wasanaethau awtistiaeth fod y gorau y gallan nhw fod.

Mae arnon ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl am ein syniadau ar gyfer y Côd. A'r pethau rydych chi'n meddwl ddylai fod ynddo.

Darllenwch y ddogfen hon. Dywedwch wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl trwy lenwi'r ffurflen ymateb hawdd ei deall.

Dywedwch wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl erbyn 1 Mawrth 2019.

1. Asesiad a diagnosis

Mae asesiad a diagnosis da ar yr adeg iawn yn bwysig iawn.

Cael asesiad a diagnosis

Yng Nghymru mae gennym ni dimau arbennig i asesu a diagnosio plant a phobl ifainc i weld a ydyn nhw'n dioddef gan awtistiaeth.

Daethon ni i wybod bod gwneud diagnosis o awtistiaeth mewn oedolion yn wael iawn. Rydyn ni wedi gwneud llawer o waith i newid hyn. Rhan fawr o hyn yw'r **Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig**.

Un o brif amcanion y gwasanaeth hwn yw darparu ffordd glir o ddiagnosio ac asesu oedolion i weld a ydyn nhw'n dioddef gan awtistiaeth.

Mae'n bwysig bod gwasanaethau ar gyfer plant ac oedolion yn gweithio mewn ffyrdd tebyg i'w gilydd.



Dylai bod gwybodaeth glir ar gael i bawb sydd angen gwasanaethau ynghylch:

- pa wasanaethau sydd ar gael
- sut i gael y gwasanaethau hynny.

Dylai staff sy'n gweithio ym myd iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg wybod am wasanaethau awtistiaeth. A sut y gall pobl gael y gwasanaethau hyn.

Dylai pawb ddechrau cael asesiad a diagnosis yn yr un ffordd. Ac ni ddylen nhw orfod aros yn rhy hir i gael eu gweld.

Byddwn yn cadw golwg ar wasanaethau i wneud yn siŵr nad ydyn nhw'n cymryd gormod o amser. Ac i wneud yn siŵr eu bod yn rhoi gwasanaethau da i bawb yn yr un ffordd.

Plant a phobl ifainc

Mae'r GIG wedi ysgrifennu canllawiau ynglŷn â'r ffordd y dylai plant a phobl ifainc gael eu hasesu i weld a ydyn nhw'n dioddef gan awtistiaeth.

Pan fydd plentyn neu berson ifanc yn cael ei anfon i gael ei asesu, dylai'r tîm asesu gael gwybod:

- pa arwyddion neu symptomau sydd gan y plentyn neu'r person ifanc
- sut y mae'r arwyddion a'r symptomau hynny'n effeithio arnyn nhw
- oes unrhyw berygl i'r plentyn neu'r person ifanc.

Bydd y tîm yn siarad am yr wybodaeth hon.

Efallai y byddan nhw'n penderfynu bod angen mwy o wybodaeth arnyn nhw cyn iddyn nhw fedru gwneud asesiad. Ond mae'n rhaid iddyn nhw wneud eu gorau i wneud asesiad hyd yn oed os oes peth gwybodaeth ar goll.

Os bydd y tîm yn penderfynu peidio â gwneud asesiad mae'n rhaid iddyn nhw ddweud pam.

Fe ddylen nhw roi cyngor ynghylch pa wybodaeth arall fasai arnyn nhw ei hangen er mwyn gwneud asesiad. Neu pa wasanaethau eraill allai roi help. Dylai'r plentyn neu'r person ifanc a'u teulu gael yr wybodaeth hon.

Dylai plant a phobl ifainc gael asesiad o fewn 26 wythnos o gael eu hatgyfeirio.

Os oes arnyn nhw angen cael eu gweld yn fwy cyflym, dylai'r tîm wneud beth y gallan nhw i wneud i hynny ddigwydd.

Dylai gwahanol fathau o staff iechyd a gofal cymdeithasol fod yn rhan o'r asesiad. Fe ddylen nhw weithio gyda'i gilydd i ysgrifennu proffil o anghenion y plentyn.

Dylai plant gael eu hasesu am anghenion corfforol a meddyliol eraill yr un pryd.

Dyletswyddau ar gyfer asesiad a diagnosis

Dyma restr o'r gweithrediadau sy'n ymwneud ag asesiad a diagnosis y mae'n rhaid i awdurdodau lleol a byrddau iechyd eu gwneud.

Mae'n **rhaid** i awdurdodau lleol:

- Wneud yn siŵr bod pobl ag awtistiaeth yn gwybod bod ganddyn nhw'r hawl i gael asesu eu hanghenion. A bod gan ofalwyr yr hawl i gael asesiad gofalwr.

Mae'n **rhaid** i fyrddau iechyd lleol:

- Roi gwasanaethau asesiad a diagnosis i bobl.

- Gwneud yn siŵr bod ffordd glir o gael asesiad a diagnosis. A dilyn canllawiau cenedlaethol ynghylch y ffyrdd gorau o wneud hyn.

- Rhoi rhywun i ofalu am drefnu ac edrych sut y mae pobl yn cael asesiadau a diagnosis.

- Gwneud yn siŵr bod staff iechyd fel meddygon teulu yn gwybod sut i anfon pobl am asesiad a diagnosis.

- Gwneud yn siŵr nad yw pobl yn aros yn rhy hir am eu hasesiad.

- Anfon pobl sy'n cael eu diagnosio ag awtistiaeth at y **Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig** i gael eu hasesu i gael cefnogaeth. Mae'n rhaid i bobl gytuno â hyn yn gyntaf.

- Anfon pobl sy'n cael eu diagnosio ag awtistiaeth at y gwasanaethau cymdeithasol i gael asesiadau gofal a chefnogaeth. Mae'n rhaid i bobl gytuno â hyn yn gyntaf.

- Anfon pobl sydd ddim yn cael eu diagnosio ag awtistiaeth at y gwasanaethau cymdeithasol os oes arnyn nhw angen asesiad gofal a chefnogaeth. Mae'n rhaid i bobl gytuno â hyn yn gyntaf.

- Gwneud yn siŵr bod pobl ag awtistiaeth yn gallu cael gwasanaethau cefnogi ar gyfer anhwylderau eraill yn hawdd. Er enghraifft problemau iechyd meddwl neu anableddau dysgu.

- Gwneud yn siŵr bod pobl mewn mannau fel carchar yn gallu cael eu hasesu a'u diagnosio i weld a ydyn nhw'n dioddef gan awtistiaeth, os oes angen. A gwneud yn siŵr bod staff sy'n gweithio yn y mannau hyn yn deall os bydd rhywun yn debygol o fod ag awtistiaeth.

Mae'n **rhaid** i awdurdodau lleol a byrddau iechyd weithio gyda'i gilydd i:

- Gwrdd ag anghenion pobl ag awtistiaeth sydd ag anghenion cefnogi ychwanegol. Er enghraifft pobl sydd ag awtistiaeth a phroblemau iechyd meddwl neu anableddau dysgu.

Dyma restr o weithrediadau y **dylen nhw** gael eu gwneud i wneud gwasanaethau y gorau y gallan nhw fod. **Dylai** awdurdodau lleol a byrddau iechyd:

- Weithio gyda'i gilydd a rhannu gwybodaeth am anghenion plant ac oedolion ag awtistiaeth.

- Rhannu gwybodaeth am anghenion pobl sydd ddim yn cael eu diagnosio ag awtistiaeth, os ydyn nhw'n dal angen gofal a chefnogaeth.

- Gwneud yn siŵr bod pobl mewn mannau fel carchar yn cael asesiadau a chefnogaeth gofal cymdeithasol.

2. Cael gofal a chefnogaeth

Mae pobl awtistig i gyd yn wahanol ac mae ganddyn nhw wahanol anghenion cefnogi. Gall rhai fyw'n annibynnol. Ac mae gan rai anhwylderau eraill sy'n meddwl bod arnyn nhw angen cefnogaeth ychwanegol.

Mae'r dyletswyddau yn y rhan hon o'r Côd yn dweud sut y mae **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)** yn berthnasol i bobl ag awtistiaeth a'u gofalwyr.

Mae'r **Ddeddf** yn dweud wrth awdurdodau lleol sut y mae'n rhaid iddyn nhw helpu pobl gael gwasanaethau gofal cymdeithasol mewn tair gwahanol ffordd:

- Gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth.
- Asesiad ar gyfer gofal a chefnogaeth.
- Cynllunio a rhoi gofal a chefnogaeth.

Prif fwriad **Deddf y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)** yw rhoi gwasanaethau i bobl sy'n gallu rhwystro problemau rhag digwydd neu fynd yn waeth.

Mae **Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig** wedi cael ei gychwyn i wneud yn siŵr ein bod yn cwrdd ag anghenion pobl ag awtistiaeth yn gynnar. A'u rhwystro rhag bod ag angen mwy o gefnogaeth yn y dyfodol.

Mae **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)** yn dweud bod yn rhaid i awdurdodau lleol:

- Edrych beth yw anghenion pobl sy'n byw yn eu hardal.

- Gofalu am lesiant pobl a gofalwyr sydd angen gofal a chefnogaeth.

- Rhoi llawer o wasanaethau sy'n gallu rhwystro problemau rhag digwydd neu fynd yn waeth.

- Rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl ynghylch gofal a chefnogaeth. A helpu pobl i gael y gofal a'r gefnogaeth sydd ei hangen arnyn nhw.

- Rhedeg **Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth** i helpu pobl wybod pa wasanaethau sydd ar gael. A gwneud yn siŵr bod gan staff y gwasanaethau y medrau i helpu pobl awtistig.

- Bod â phroses glir o asesu a chadw golwg ar anghenion cefnogi sydd yr un fath i bawb.

- Rhoi asesiad i unrhyw un sydd ag anghenion gofal a chefnogaeth. Mae'n rhaid i bobl sy'n gwneud yr asesiadau gael y medrau a'r wybodaeth iawn.

Mae'r **Ddeddf** hefyd yn dweud:

- Pa bethau ddylai fod yn y cynlluniau gofal a chefnogaeth.

- Pryd y gall person ddefnyddio'r gyfraith i wneud i'r awdurdod lleol roi gofal a chefnogaeth.

- Beth yw'r **meini prawf cymhwysedd** ar gyfer cael gofal a chefnogaeth.

Rhestr o bethau yw'r **meini prawf cymhwysedd** y mae'n rhaid i chi fod neu fod yn dioddef ganddyn nhw cyn y gallwch chi gael gofal a chefnogaeth.

- Pryd y dylai taliadau uniongyrchol gael eu defnyddio a sut y dylen nhw gael eu defnyddio.

Cymhwysedd

Mae'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer cael gofal a chefnogaeth yn edrych ar:

- Sefyllfa person.

- Y pethau sydd ar berson eu heisiau a'u hangen.

- Y pethau all fod yn rhwystro'r person rhag cael y pethau sydd arno eu heisiau a'u hangen.

- Unrhyw berygl i'r person neu i bobl eraill.

- Beth yw cryfderau a medrau'r person.

Mae'n rhaid meddwl am y pethau hyn i gyd yn ystod asesiad ac wrth gynllunio cefnogaeth.

Bydd canlyniad asesiad yn un o'r canlynol:

- Byddan nhw'n penderfynu nad oes gan y person anghenion gofal a chefnogaeth.

- Bod angen asesiad arbenigol.

- Bod ar y person angen gwybodaeth, cyngor neu help i gwrdd â'i anghenion.

- Bod ar y person angen gwasanaethau i rwystro problem rhag digwydd. Neu rhag mynd yn waeth.

- Gall y person gwrdd â'i anghenion ei hun.

- Bod ar y person angen cynllun gofal a chefnogaeth.

Mae'n rhaid i staff sy'n gwneud asesiadau ddeall anghenion pobl awtistig.

Mae'n rhaid i unrhyw newidiadau ym mywyd y person gael eu cynllunio'n ofalus. Ac mae'n rhaid i awdurdodau lleol edrych ar asesiadau eto i wneud yn siŵr eu bod yn dal i weithio i'r person.

Gall plant ac oedolion ag awtistiaeth gael gwasanaethau gofal a chefnogaeth.

Bydd pobl ifainc sydd ag awtistiaeth a phroblemau iechyd meddwl yn cael cefnogaeth gan **Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed** neu **CAMHS**.

Dylai plant a phobl ifainc gael eu gweld gan **CAMHS** o fewn **28 diwrnod** o gael eu hatgyfeirio.

Mae gan 4 o bob 10 o bobl sydd ag awtistiaeth anabledd dysgu hefyd.

Bydd plant sydd ag anabledd dysgu ac awtistiaeth sydd ag anghenion gofal iechyd yn cael cefnogaeth gan y tîm a wnaeth eu diagnosis.

Mae rhai plant sy'n mynd i ysgolion arbennig yn cael cefnogaeth arbenigol trwy eu hysgol.

Bydd oedolion sydd ag awtistiaeth ac anableddau dysgu fel arfer yn cael gwasanaethau gan dimau anabledd dysgu cymunedol os oes ganddyn nhw anghenion gofal iechyd.

Dyletswyddau ar gyfer rhoi gofal a chefnogaeth i bobl

Dyma restr o'r gweithrediadau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol a byrddau iechyd eu gwneud wrth roi gwasanaethau awtistiaeth.

Mae'n **rhaid** i awdurdodau lleol:

- Wneud yn siŵr bod pobl sydd ag awtistiaeth yn gwybod bod ganddyn nhw'r hawl i gael asesu eu hanghenion. Ac mae gan ofalwyr yr hawl i gael asesiad gofalwyr.

- Gwneud yn siŵr bod pobl yn medru cael gwybodaeth am wasanaethau awtistiaeth yn eu hardal.

- Gwneud yn siŵr nad yw cyniferydd deallusrwydd (CD) person yn cael ei ddefnyddio i benderfynu a fydd rhywun yn gall cael asesiad anghenion.

Mae'n **rhaid** i fyrddau iechyd lleol:

- Wneud yn siŵr bod staff iechyd fel meddygon teulu yn gwybod am wasanaethau awtistiaeth yn eu hardal. A sut y gall pobl gael y gwasanaethau hyn.

Mae'n **rhaid** i fyrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd i:

- Wneud yn siŵr bod rhywun ym mhob ardal **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol** ar gael i siarad am anghenion pobl awtistig.

- Gweithio gyda'i gilydd i gynllunio a thalu am wasanaethau awtistiaeth.

- Gwneud yn siŵr bod pobl yn cael dweud eu barn am y ffordd y mae gwasanaethau awtistiaeth yn cael eu cynllunio a'u rhedeg.

- Gwneud yn siŵr bod ffyrdd clir i bobl sydd ag awtistiaeth a phroblemau iechyd meddwl neu anableddau dysgu gael gwasanaethau. Here is a list of actions that **should** be done to make sure autism services are the best they can be.

Dyma restr o weithrediadau y **dylen nhw** wneud er mwyn bod yn siŵr bod gwasanaethau awtistiaeth y gorau y gallan nhw fod. **Dylai** awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol:

- Helpu gwasanaethau i ddod o hyd i ffyrdd newydd o weithio.

- Gwneud yn siŵr bod pobl ag awtistiaeth a phobl ag anableddau dysgu yn cael cefnogaeth ychwanegol i gael gwasanaethau os oes arnyn nhw angen hynny.

- Gwneud yn siŵr bod gwasanaethau arbenigol ar gael pan fydd eu hangen.

Dylai Addysg a Gwella Iechyd Cymru:

- Wneud yn siŵr eu bod yn cymryd rhan mewn cynlluniau ar gyfer staff yn eu hardal leol.

- Gwneud yn siŵr bod eu staff iechyd fel meddygon teulu yn cael hyfforddiant ar gyfer awtistiaeth.

3. Codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant

Mae **Tîm Datblygu Cenedlaethol Anhwylderau'r Spectrwm Awtistig (ASD)** wedi gwneud llawer o waith da i godi ymwybyddiaeth o awtistiaeth.

Mae mwy o bobl yn ein cymunedau yn gwybod am awtistiaeth. Ac mae llawer mwy o weithwyr proffesiynol yn awr yn deall sut i gwrdd ag anghenion pobl awtistig.

Mae llawer o wybodaeth ac adnoddau ar wefan **ASDinfowales**.

Hyfforddiant ar gyfer staff iechyd a gofal cymdeithasol

Mae llawer o staff iechyd a gofal cymdeithasol wedi cael hyfforddiant at gyfer awtistiaeth erbyn hyn. Mae diolch am hyn i **Strategaeth ASD** a **Thîm Datblygu Cenedlaethol ASD**.

Dylai pob aelod o staff sy'n cefnogi pobl awtistig gael yr wybodaeth a'r medrau iawn.

Mae **Tîm Cenedlaethol ASD** wedi creu llawer o adnoddau hyfforddi ar gyfer staff. Maen nhw ar gael ar wefan **ASDinfowales**.

Dylai awdurdodau lleol, byrddau iechyd a phartneriaid wneud yn siŵr bod gan eu staff yr wybodaeth a'r medrau iawn i gefnogi pobl awtistig. Dylen nhw edrych pa hyfforddiant sydd ar y staff ei angen. Gallan nhw ddefnyddio **Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol Awtistiaeth** i'w helpu gyda hyn.

Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

Mae'n rhaid i **Ofal Cymdeithasol Cymru** wneud yn siŵr bod gan weithwyr gofal cymdeithasol y cymwysterau iawn. Maen nhw wedi gwneud cymwysterau sy'n cynnwys hyfforddiant ar gyfer awtistiaeth.

Mae arnon ni eisiau gwneud yn siŵr bod pobl awtistig a'u rhieni a'u gofalwyr yn helpu i wneud hyfforddiant newydd ar gyfer awtistiaeth.

Rydyn ni wedi rhoi arian i gychwyn **Rhwydwaith Cyfranogiad Oedolion**. Rydyn ni hefyd yn gweithio gyda **Fforwm Rhieni Gofalwyr Cenedlaethol**. Bydd hyn yn ein helpu i gael barn rhieni, gofalwyr a phobl awtistig.

Bydd gan bob **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol** hefyd **Hyrwyddwr ASD**. Bydd y person hwn yn sefyll dros anghenion pobl awtistig yn eu hardaloedd.

Dyletswyddau ar gyfer codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant

Dyma restr o'r gweithrediadau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol a byrddau iechyd eu gwneud i godi ymwybyddiaeth o awtistiaeth a rhoi hyfforddiant ar gyfer awtistiaeth.

Mae'n **rhaid** i awdurdodau lleol:

- Wneud yn siŵr bod gan bawb sy'n gwneud asesiadau o anghenion yr wybodaeth a'r medrau iawn. Os **nad** ydyn nhw'n gwybod am awtistiaeth mae'n **rhaid** i'r awdurdod lleol wneud yn siŵr eu bod yn cael cyngor gan rywun sydd yn gwybod.

- Gwneud yn siŵr bod y **Gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth** yn rhoi gwybodaeth am wasanaethau awtistiaeth yn eu hardal.

- Gwneud yn siŵr bod gan weithwyr gofal cymdeithasol y cymwysterau iawn i wneud eu gwaith.

Mae'n **rhaid** i fyrddau iechyd lleol:

- Wneud yn siŵr bod gan staff yr hyfforddiant a'r wybodaeth sydd eu hangen arnyn nhw i wneud eu gwaith.

- Gwneud yn siŵr bod gan bawb sy'n gwneud asesiadau a diagnosis ar gyfer awtistiaeth yr wybodaeth a'r medrau sydd eu hangen arnyn nhw.

- Gwneud yn siŵr bod staff iechyd fel meddygon teulu yn gwybod am wasanaethau awtistiaeth yn eu hardal. A sut y gall pobl gael y gwasanaethau hyn.

Dyma restr o'r gweithrediadau y **dylen nhw** eu gwneud er mwyn gwneud yn siŵr bod gwasanaethau awtistiaeth y gorau y gallan nhw fod.

Dylai awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol:

- Wneud yn siŵr bod ymwybyddiaeth o awtistiaeth yn rhan o hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywioldeb ar gyfer holl staff iechyd a gofal cymdeithasol.

- Edrych faint o hyfforddiant ar gyfer awtistiaeth sydd ei angen i staff iechyd a gofal cymdeithasol wneud eu gwahanol swyddi.

- Gwneud yn siŵr y gall staff gael yr wybodaeth, yr adnoddau a'r hyfforddiant iawn ar gyfer awtistiaeth os oes arnyn nhw ei angen.

- Gwneud yn siŵr bod hyfforddiant yn dilyn y canllawiau cenedlaethol. A gwneud yn siŵr bod hyfforddiant yn cael ei ddiweddaru.

- Gwneud yn siŵr bod pobl awtistig, rhieni a gofalwyr yn cymryd rhan mewn hyfforddiant ar gyfer awtistiaeth. Gallan nhw helpu i gynllunio neu roi'r hyfforddiant.

Dylai Addysg a Gwella Iechyd Cymru:

- Wneud yn siŵr eu bod nhw'n cymryd rhan mewn cynlluniau ar gyfer staff yn eu hardal leol.

- Gwneud yn siŵr bod eu staff iechyd fel meddygon teulu yn cael hyfforddiant ar gyfer awtistiaeth.

4. Cynllunio a chadw golwg ar wasanaethau

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol a byrddau iechyd gynllunio a rhedeg gwasanaethau sy'n cwrdd ag anghenion y bobl yn eu hardal.

Mae'n rhaid iddyn nhw weithio gyda'i gilydd i weld beth yw anghenion y bobl yn eu hardal. A:

- Pha mor wael ydyn nhw am beidio â chwrdd ag anghenion.

- Pa wasanaethau sydd eu hangen i gwrdd â'r anghenion yn eu hardal.

- Pa wasanaethau sydd eu hangen i rwystro problemau rhag digwydd. Neu eu rhwystro rhag mynd yn waeth.

- Sut y gallan nhw roi gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'n rhaid i **Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol** wneud yn siŵr y gall pawb roi eu barn wrth asesu anghenion pobl yn eu hardal.

Byddan nhw'n ysgrifennu cynllun i ddweud sut y byddan nhw'n cwrdd â'r anghenion hynny. Ac ysgrifennu adroddiadau i ddweud pa mor dda maen nhw'n ei wneud ar eu cynllun.

Mae **Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol** yn dod â'r canlynol at ei gilydd:

- Iechyd
- Gwasanaethau cymdeithasol
- Y trydydd sector – elusennau a grwpiau gwirfoddol
- Pobl leol
- Partneriaid eraill.

Mae **Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol** hefyd yn gofalu am y **Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig** yn eu hardal.

Gall fod yn anodd cael gwybodaeth am anghenion pobl awtistig.

Fel arfer dim ond y bobl sydd wedi gofyn am ofal a chefnogaeth rydyn ni'n gwybod amdanyn nhw. Efallai bod llawer o bobl heb gael diagnosis. Neu efallai nad oes arnyn nhw eisiau cefnogaeth.

Mae'r **Gymdeithas Awtistig Genedlaethol** yn dweud bod gan o gwmpas un o bob cant o bobl awtistiaeth. Gallan nhw ddefnyddio'r nifer hwn i helpu i gynllunio gwasanaethau.

Bydd unrhyw wybodaeth rydyn ni'n ei chasglu yn cael ei chadw'n ddiogel ac yn gyfrinachol. Byddwn ni'n dilyn y gyfraith ynglŷn â chadw a defnyddio gwybodaeth pobl.

Cadw golwg ar wasanaethau

Rydyn ni'n defnyddio gwybodaeth ynghylch faint o bobl sydd ag awtistiaeth a faint sy'n cael cefnogaeth i gadw golwg ar wasanaethau.

Mae arnon ni angen gwybodaeth hefyd ynghylch pa mor dda y mae gwasanaethau wedi helpu pobl.

Mae gwasanaethau wedi gweithio gyda'i gilydd i greu ffordd o edrych pa mor dda y mae gwasanaethau'n gweithio i bobl.

Dyletswyddau ar gyfer cynllunio a chadw golwg ar wasanaethau

Dyma restr o weithrediadau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol a byrddau iechyd eu gwneud wrth gynllunio a chadw golwg ar wasanaethau.

Mae'n **rhaid** i fyrddau iechyd lleol:

- Wneud yn siŵr eu bod yn dilyn rheolau am gadw gwybodaeth ynglŷn â pha mor hir y mae'n rhaid i bobl aros i gael asesiadau a diagnosis i weld a ydyn nhw'n dioddef gan awtistiaeth.

Mae'n **rhaid** i fyrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd i:

- Ddilyn eu dyletswyddau yn **Neddf y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)**. A gwneud yn siŵr eu bod yn meddwl am anghenion pobl awtistig.

- Gwneud yn siŵr bod pobl awtistig, rhieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol yn cael dweud eu barn ynghylch y ffordd y mae gwasanaethau awtistiaeth yn cael eu cynllunio a'u rhedeg.

- Gwneud yn siŵr bod person uwch sy'n sefyll dros anghenion pobl ag awtistiaeth. Bydd y person hwn yn:

- Diweddaru'r **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol** ynghylch gwasanaethau awtistiaeth.

- Edrych sut y mae byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol yn gweithio gyda'i gilydd i gynllunio a thalu am wasanaethau awtistiaeth.

- Gwneud yn siŵr bod pawb yn cael dweud eu barn ynglŷn â chynllunio a rhedeg gwasanaethau awtistiaeth.

Geiriau anodd

Asesiad
Mae asesiad yn ffordd o weld pa ofal a chefnogaeth sydd ar berson ei angen.

Côd Ymarfer neu'r Côd
Mae Côd Ymarfer yn gosod rheolau ac yn rhoi cyngor ynghylch y ffyrdd gorau o weithio. Mae'n dweud sut i ddilyn deddfau a chynlluniau. Byddwn yn ei alw'n y Côd i'w wneud yn fyrrach.

Diagnosis
Mae diagnosis yn ffordd o weld a yw person yn dioddef gan awtistiaeth.

Meini prawf cymhwysedd
Rhestr o bethau yw meini prawf cymhwysedd y mae'n rhaid i chi fod neu fod yn dioddef ganddyn nhw cyn y gallwch chi gael gofal a chefnogaeth.